OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 434 (Cy. 102)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU AMAETHYDDIAETH, CYMRU BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni - - - -* | *11 Chwefror 2019* |
| *Gwnaed - - - -* | *4 Mawrth 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Mawrth 2019* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3)* | |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(**1**) 2018 p. 16 .
(**2**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol, mewnosoder—

"“third country” means a country or state other than the United Kingdom."

(3) Yn rheoliad 6A—

(a) ym mharagraff (a), yn lle “country that is not a member State” rhodder “third country”;

(b) hepgorer paragraff (b) a’r “or” yn union o flaen hynny.

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6, hepgorer “ac i Aelod-wladwriaethau eraill”.

(3) Yn Rhan 3, yn y pennawd, yn lle “rheolaethau’r Gymuned” rhodder “rheolaethau”.

(4) Yn rheoliad 10—

(a) yn y pennawd, yn lle “Rheolaethau’r Gymuned” rhodder “Arbenigwyr sy’n ymwneud â rheolaethau”;

(b) yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “ei gwneud yn hwylus i archwiliadau gael eu cynnal gan arbenigwyr y Comisiwn yn unol ag Erthygl 45” rhodder “hwyluso archwiliadau”.

(5) Hepgorer rheoliad 12.

(6) Yn rheoliad 13, hepgorer paragraff (1).

(7) Yn rheoliad 14(1)—

(a) yn is-baragraff (b), yn y testun Cymraeg, yn lle “rheoliadau 10 neu 12” rhodder “rheoliad 10”;

(b) yn is-baragraff (d), yn y testun Saesneg, yn lle “regulations 10 or 12” rhodder “regulation 10”.

(8) Yn rheoliad 17(1)(c), yn lle “, 10, neu 12” rhodder “neu 10”.

**Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi’u Rhewi’n Gyflym (Cymru) 2007**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi’u Rhewi’n Gyflym (Cymru) 2007(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer y diffiniad o “Cyfarwyddeb 89/108”;

(b) ym mharagraff (2), yn lle “yng Nghyfarwyddeb 89/108, Cyfarwyddeb 92/2” yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “yng Nghyfarwyddeb 92/2”.

(3) Yn rheoliad 5—

(a) ym mharagraff (2), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “neu unrhyw ddisgrifiad arall a restrir yn Erthygl 8.1(a) o Gyfarwyddeb 89/108” rhodder “neu’r hyn sy’n cyfateb i hynny mewn unrhyw iaith arall”;

(**3**) O.S. 2004/3279, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247) ac O.S. 2011/1043; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 2007/196 (Cy. 15), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**5**) O.S. 2007/389 (Cy. 40), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043 ac O.S. 2018/806 (Cy. 162); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(b) ym mharagraff (3), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle "unrhyw ddisgrifiad arall a restrir yn Erthygl 8.1(a) o Gyfarwyddeb 89/108" rhodder "yr hyn sy'n cyfateb i hynny mewn unrhyw iaith arall";

(c) ym mharagraff (4), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle "unrhyw ddisgrifiad arall a restrir yn Erthygl 8.1(a) o Gyfarwyddeb 89/108" rhodder "yr hyn sy'n cyfateb i hynny mewn unrhyw iaith arall".

**Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009**

**5.** Yn y Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009(**6**), yn lle'r pennawd i Atodlen 1 rhodder "Diffiniadau o gyfraith yr UE a ddargedwir".

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(**7**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o "y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol", hepgorer yr "ac" terfynol;

(b) yn y lle priodol, mewnosoder—

"ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw gwlad neu wladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig."

(3) Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (1), yn lle ", awdurdodau OFFC eraill ac Aelod-wladwriaethau" rhodder "ac awdurdodau OFFC eraill";

(b) ym mharagraff (4), yn lle "ddeddfwriaeth yr UE" rhodder "gyfraith yr UE a ddargedwir".

(4) Yn rheoliad 5(1), hepgorer "ac Aelod-wladwriaethau".

(5) Yn rheoliad 10(2), hepgorer "ond nid yw'n cynnwys y Comisiwn Ewropeaidd".

(6) Hepgorer rheoliadau 14, 15 ac 16.

(7) Yn rheoliad 17—

(a) hepgorer paragraff (3);

(b) ym mharagraff (5), hepgorer is-baragraffau (a) a (b).

(8) Yn rheoliad 19(1)—

(a) yn y ddau le y mae'n digwydd, hepgorer "14, 15 neu";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "rheoliadau hynny" rhodder "rheoliad hwnnw".

(9) Yn rheoliad 20(2), yn lle ", neu reoliad 11 neu reoliad 16" rhodder "neu reoliad 11".

(10) Yn rheoliad 22, hepgorer y diffiniad o "y tiriogaethau perthnasol" a'r "ac" yn union o flaen hynny.

(11) Yn rheoliad 28(1), hepgorer is-baragraffau (b) ac (ch).

(12) Hepgorer rheoliad 44.

(**6**) O.S. 2009/1557 (Cy. 152), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043 ac O.S. 2018/806 (Cy. 162); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**7**) O.S. 2009/3376 (Cy. 298), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011**

**7.**—(1) Mae Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011(**8**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1), yn lle "Undeb Ewropeaidd" rhodder "Deyrnas Unedig".

(3) Yn rheoliad 8(3)(a)(i), yn lle "Undeb Ewropeaidd" rhodder "Deyrnas Unedig".

(4) Hepgorer rheoliad 12(2).

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2019

(**8**) O.S. 2011/1605 (Cy. 186), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ym maes hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.